# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 4YDD RHAGFYR, 2023**

***DILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 27 Tachwedd 2023)

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

### AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Arwyn Herald Roberts

Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Sedd Wag

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anwen J. Davies

Gareth Williams
John Brynmor Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 25 Medi 2023 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG — 5 - 25

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 27ain Hydref 2023
b) 25ain Medi 2023
c) 13eg Medi 2023
d) 30ain Awst 2023

## 6. CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD - TRINIAETHAU ARBENNIG — 26 - 28

I ystyried yr adroddiad

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 25-09-2023**

**Presenoldeb:** **Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd)**
**Cynghorydd Gwynfor Owen (Is gadeirydd)**

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Eryl Jones-Williams, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Angela Russell, a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Annwen Hughes, Linda Ann Jones ac Arwyn Herald Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mehefin 12fed 2023 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 26 Mai 2023, 12 Mehefin 2023 a 14 Gorffennaf 2023 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 10:35am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 30 Awst 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes ac Arwyn Herald Roberts**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)
Heather Jones (Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru)
Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)
Cynghorydd Rheinallt Puw (Aelod Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIO TRWYDDED EIDDO**

Cwrw Ty Mo, Cwrw Ogwen, 5 Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda, Bangor

**Eraill a wahoddwyd:**

Mr Morgan Vallely (Ymgeisydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo newydd gan Cwrw Tŷ Mo, Cwrw Ogwen, 5 Rhes Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda lle mae bwriad i weithredu'r eiddo fel bragdy a bar. Eglurwyd bod trwydded eiddo eisoes yn bodoli ar gyfer yr eiddo, ond bod hwn yn gais am drwydded newydd fyddai'n caniatáu gwerthiant alcohol ar ac oddi ar yr eiddo tan hanner nos 7 diwrnod yr wythnos, a hawl i gynnal adloniant tu mewn a thu allan tan 11 yr hwyr yn ddyddiol. Er nad oedd cynnydd cyffredinol yn yr oriau gweithgareddau trwyddedig, roedd yr ymgeisydd yn ceisio'r hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig yn hwyrach na'r drwydded gyfredol, ond peidio agor tan amser cinio.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiad i'r cais, ond derbyniwyd sylwadau i'r cais gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar sail y ffaith fod angen mesurau digonol i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcan trwyddedu o atal niwsans

cyhoeddus. Mynegwyd pryder am yr oriau hwyr ychwanegol ar gyfer gweithgareddau trwyddedig o ystyried bod fflat uwch ben a naill ochr i'r bragdy a thafarn, ac effeithiolrwydd strwythur yr adeilad o ran ynysu'r anheddau hynny rhag sŵn cerddoriaeth. Argymhellodd y swyddog amodau sŵn penodol i'w cynnwys ar atodlen weithredol yr eiddo (yn ychwanegol i'r amodau a gynigwyd gan yr ymgeisydd yn rhan M o'r cais).

Cafwyd cadarnhad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd ei fod yn derbyn yr amodau a gynigwyd a mynegwyd nad oedd bwriad cynnal nosweithiau adloniant / cerddoriaeth byw mwy nag unwaith y mis, fydd yn gorffen am oddeutu 22:00.

Roedd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Rheinallt Puw yn gefnogol i'r cais, yn nodi mewn e-bost, "... yn cefnogi'r cais yma 100%. Braf iawn gweld menter newydd yn adfywio'r Stryd Fawr."

O ganlyniad, roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell caniatáu y cais yn ddarostyngedig i gynnwys amodau ychwanegol rheoli sŵn a argymhellwyd gan Gwarchod y Cyhoedd ac yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r ymgeisydd.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Ei fwriad oedd ymestyn yr oriau presennol hyd 22:00 gyda chyfle i gynnal rhai digwyddiadau tan 1:00 rhyw unwaith y mis, ar ŵyl y banc ac ambell benwythnos
- Bod tafarndai eraill yn gweithredu oriau tebyg
- Bod yr eiddo wedi ei leoli ar y stryd fawr
- Os bydd cwynion sŵn yn cael eu cyflwyno, ei fod yn barod i osod offer ynysu sŵn, ond mai rhedeg yr eiddo fel 'tap room' oedd ei flaenoriaeth ac nid chwarae cerddoriaeth.
- Os cerddoriaeth, defnyddio DJ neu gerddor, unwaith y mis
- Ei fod wedi cytuno gyda'r amodau a gynigwyd gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd.

ch) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â lle i faint o gwsmeriaid sydd yn yr eiddo, nododd yr ymgeisydd bod y safle yn fach iawn a bod lle efallai i hyd at 30 person ynddo.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pharodrwydd yr ymgeisydd i dderbyn yr amodau a gynigwyd ac i reoli sŵn, nododd yr ymgeisydd ei fod yn fwy na bodlon derbyn yr amodau hyn.

Nid oedd gan yr ymgeisydd sylwadau ychwanegol i grynhoi ei achos.

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd y Rheolwr Trwyddedu:

- Nad oedd cais yma am oriau ychwanegol i'r drwydded bresennol

- Er nad oedd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan y cyhoedd, bod angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol bod sensitifrwydd sŵn yn cynyddu gyda'r nos

d) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, penderfynwyd caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i gynnwys amodau ychwanegol rheoli sŵn a argymhellwyd gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r ymgeisydd.**

Rhoddir ychwanegiadau i'r drwydded fel a ganlyn:

- Ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 15munud na'r lefel LAeq 15 munud yn y bandiau amledd trydedd wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod yma mae LAeq wedi ei ddiffinio yn BS4142:2014
- Er mwyn arbed sŵn a dirgrynant adael yr eiddo trwyddedig, bydd drysau a ffenestri'r adeilad yn cael eu cadw ar gau yn ystod yr adloniant, heblaw am fynediad i mewn ac allan o'r eiddo.
- Ni chaniateir gosod unrhyw seinyddion ar gyfer ymhelaethu cerddoriaeth yn allanol.
- Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 08:00. Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth o drosedd ac anhrefn fel sail i gyfiawnhau gwrthwynebu'r cais.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd tystiolaeth yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** cyflwynwyd gwrthwynebiad i'r cais oherwydd bod fflatiau preswyl wedi eu lleoli ar y ddwy ochr i'r adeilad a fflat wedi ei leoli uwchben y bragdy. O ganlyniad, awgrymwyd amodau ychwanegol i'w cynnwys ar y drwydded**.** Cadarnhaodd Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd Cyngor Gwynedd bod yr

ymgeisydd wedi cytuno i’r amodau sŵn penodol i’w cynnwys ar atodlen weithredol yr eiddo (yn ychwanegol i’r amodau a gynigwyd gan yr ymgeisydd yn rhan M o’r cais). Roedd yr is-bwyllgor hefyd wedi ystyried nad oedd cwynion wedi eu derbyn pan roedd cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar yr eiddo tan 20:30, ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiad i’r cais gan gymdogion.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i’r egwyddor hwn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o’r fath drwy roi rhybudd o apêl i’r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â’r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau’r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:00

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 13 Medi 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Elfed Williams (Cadeirydd) Edgar Owen a Huw Rowlands**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Lyndsey Thomas (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS DDIGWYDDIAD DROS DRO - BRAICH GOCH INN, CORRIS**

Cais am DDIGWYDDIAD DROS DRO – ymestyniad oriau gweithgareddau trwyddedig ar gyfer achlysur codi arian at elusennau ar yr 22ain o Fedi 2023

**Eraill a wahoddwyd:**

- Maria De La Pava Catano (Ymgeisydd)
- Mark Mortimer (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)
- Cynghorydd John Pughe Roberts (Aelod Lleol)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Trwyddedu yn manylu ar gais digwyddiad dros dro yn Braich Goch, Corris, Machynlleth, mewn perthynas â ymestyn oriau gweithgareddau trwyddedig tu mewn i'r eiddo ar gyfer achlysur codi arian at elusennau ar y 22ain o Fedi 2023

- Defnyddio'r ardal fewnol y bar sydd wedi ei gysylltu i adeilad y bunkhouse ar gyfer gwerthu alcohol a chynnal cerddoriaeth byw hyd at 11 yr hwyr a DJ tan 02:00 y bore.
- Darparu gweithgareddau trwyddedig ar gyfer uchafswm o 100 o bobl

Adroddwyd bod gwrthwynebiad wedi ei dderbyn i'r cais gan y Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd gan nad oedd yr ymgeisydd wedi ymateb i drafod cyfaddawd ynglŷn â'r oriau. Eglurwyd mai dim ond y Cyngor (sydd yn gweithredu cyfrifoldebau Iechyd Amgylchedd) a'r Heddlu sydd gyda'r grym i wrthwynebu rhybudd digwyddiad dros dro ac nad oedd trefn o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y gyfundrefn digwyddiadau dros dro.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sylwadau i'r cais wedi eu cyflwyno gan Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd oherwydd pryder fod y digwyddiad yn mynd i danseilio'r amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Roedd swyddogion y gwasanaeth wedi derbyn dau gŵyn am aflonyddwch sŵn cerddoriaeth ym mis Mai 2022 hyd 01:30 (tu hwnt i'r oriau a ganiateir ar y drwydded). Nid oedd rhybudd digwyddiad dros dro mewn lle i ganiatáu gweithgareddau trwyddedig tu hwnt i'r hyn a ganiateir ar y drwydded.

Eglurwyd, gan fod cwynion sŵn o weithgareddau trwyddedig heb awdurdod wedi eu derbyn mis Mai 2022, anfonwyd e-bost (21-08-23) gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd at ddeilydd y drwydded yn awgrymu cyfaddawd, gan fod y cais yn nodi oriau terfynu adloniant rheoledig am 02:00. Roedd Swyddog Gwarchod y Cyhoedd yn cynnig terfynu'r gweithgareddau trwyddedig am 00:30, hanner awr yn hwyrach na'r drwydded bresennol. Ystyriwyd hyn yn gyfaddawd teg, ac y byddai yn rhoi cyfle i ddeilydd y drwydded brofi ei gallu i drefnu adloniant heb aflonyddu ar breswylwyr cyfagos.

Er hynny, ni dderbyniwyd ymateb i'r cyfaddawd ac o ganlyniad, roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell gwrthod y cais ar sail.

- Cwyn o gynnal gweithgareddau trwyddedig tu hwnt i derfyn amser y drwydded
- Cwynion o aflonyddwch sŵn yn dilyn adloniant a gynhaliwyd mis Mai 2022
- Diffyg yr ymgeisydd o beidio ymateb i gynnig o gyfaddawd ar yr oriau a ofynnwyd amdanynt

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Ei bod yn ymddiheuro am beidio ymateb i'r e-byst; roedd yn derbyn y cyfaddawd ac yn anymwybodol bod angen cadarnhau hynny gyda'r Swyddog
- Bod llythyrau yn ymddiheuro am y sŵn wedi eu hanfon allan i drigolion cyfagos yn dilyn digwyddiad Mai 2022 a'u bod bellach yn rhoi gwybod o ddigwyddiadau sydd wedi eu trefnu i'r preswylwyr lleol
- Bod Braich Goch yn cael ei rhedeg fel elusen, yn hwb cymdeithasol ac yn gweithio yn agos gyda'r gymuned - y bwriad yw adeiladu perthynas dda o gyd weithio gyda'r gymuned
- Bod y digwyddiad yn un i godi arian i wella'r adeilad ac er yn ddigwyddiad elusennol, bod yr elusen yn ceisio bod yn hunangynhaliol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymateb i'r llythyrau ymddiheuro, nodwyd nad oeddynt yn ymwybodol pwy oedd wedi cwyno ac felly llythyrau wedi eu hanfon at yr holl drigolion cyfagos, ynghyd a chynnal ymweliadau drws i ddrws. Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn dda.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chapasiti yr eiddo, nodwyd bod yr eiddo yn dal hyd at 100 o bobl. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â chadw rheolaeth a sicrhau

diogelwch y mynychwyr, nodwyd y byddai pedwar gwirfoddolwr ynghyd a dau aelod o staff yn gweithio ar y noson. Bydd y drysau a'r ffenestri ar gau gyda goruchwylwyr drysau yn gwylio'r drysau. Bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau ar gyfer pob digwyddiad.

Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Mark Mortimer (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)**

- Bod amseriad ymateb yr ymgeisydd i'r cyfaddawd (ers derbyn gwahoddiad i fynychu'r is-bwyllgor) yn anffodus.
- Yn derbyn bod yr ymgeisydd yn fodlon gyda'r ychwanegiad hanner awr - bydd hyn yn brawf o'i gallu i gydymffurfio
- Yn dilyn cwynion Mai 2022, Gwarchod y Cyhoedd yn amheus o ganiatáu trwydded digwyddiad dros dro ar gyfer Medi 2023 - dim gwybodaeth wedi ei dderbyn
- Bellach yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r drefn ac felly'n osgoi dryswch ar gyfer digwyddiadau i'r dyfodol
- Gwarchod y Cyhoedd yn barod i gymeradwyo cais digwydd dros dro Medi 22ain 2023

Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei hachos, nododd yr ymgeisydd

- Ei bod yn ymddiheuro am y camddealltwriaeth. Y byddai yn gwneud pob ymdrech i gydweithio gyda Gwarchod y Cyhoedd i'r dyfodol

d) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i derfynu gweithgareddau trwyddedig am 00:30 (hanner awr yn hwyrach na'r drwydded bresennol) yn unol ag argymhelliad Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd a gytunwyd gyda'r ymgeisydd.**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd tystiolaeth o drosedd ac anhrefn fel sail i gyfiawnhau gwrthwynebu'r cais.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus** cyflwynwyd gwrthwynebiad i'r cais oherwydd bod cwynion wedi eu derbyn gan breswylwyr cyfagos am aflonyddwch sŵn cerddoriaeth i ddigwyddiad a gynhaliwyd ar yr eiddo yn Mai 2022. O ganlyniad, awgrymwyd cyfaddawd gan Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer digwyddiad Medi 2023. Er nad oedd yr ymgeisydd wedi ymateb o fewn y cyfnod priodol i awgrym y Swyddog, derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau'r ymgeisydd yn y cyfarfod o'i pharodrwydd i gydweithio a chytuno gyda'r argymhelliad o derfynu gweithgareddau trwyddedu am 00:30. Ystyriwyd hefyd bod yr ymgeisydd wedi ymateb yn dda i gwynion digwyddiad Medi 2022 a'i bod yn barod i gydweithio gyda'r gymuned.

Yng nghyd-destun **Sicrhau Diogelwch Cyhoeddus,** er bod yr Is-bwyllgor yn pryderu am nifer y bobl oedd yn mynychu'r digwyddiad ac addasrwydd yr eiddo ar gyfer y niferoedd, derbyniwyd y sylw bod asesiad risg yn cael ei gwblhau ar gyfer pob digwyddiad a bod goruchwylwyr drysau yn cael eu cyflogi i sicrhau trefn ar y noson.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:35pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 25 Medi 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr: Elfed Williams (Cadeirydd), Gwynfor Owen ac Angela Russell**

**Swyddogion: Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd John Brynmor Hughes (Aelod Lleol) oherwydd ei fod yn Aelod o Glwb Golff Abersoch

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS TRWYDDED EIDDO:**

Clwb Golff Abersoch, Lon Golff, Abersoch, LL53 7EY

**Eraill a wahoddwyd:**

Mr Michael Murphy (Ymgeisydd)
Amlyn Williams – Aelod Clwb Golff Abersoch
Mared Llwyd (Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)
Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo gan Clwb Golff Abersoch, Lon Golff, Abersoch sydd yn glwb ar gyfer aelodau yn bennaf - yn cynnwys bar, ystafell fwyta ac ardal patio. Adroddwyd bod y cais yn un i newid o dystysgrif Clwb i drwydded eiddo, gyda'r mwyafrif o'r gweithgareddau trwyddedig yn aros yr un peth.

Eglurwyd bod yr ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i gynnal y gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan i'r eiddo. Amlygwyd bod hawl gwerthu alcohol 24ain awr y dydd, bob dydd ar y dystysgrif clwb presennol, ac ar y cais trwydded eiddo. Er nad oedd cynnydd cyffredinol yn yr oriau gweithgareddau trwyddedig, roedd yr ymgeisydd yn ceisio'r hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig yn hwyrach na'r drwydded gyfredol, ond i beidio agor tan amser cinio.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiad i'r cais, ond derbyniwyd sylwadau i'r cais gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar sail pryderon am yr oriau a ofynnwyd amdanynt, o'r bwriad o agor y clwb i'r cyhoedd a chynnal gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan i'r eiddo. Ystyriwyd y gallai'r oriau a geisiwyd danseilio'r amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Adroddwyd, ar 28ain Gorffennaf 2023, cynhaliwyd cyfarfod rhwng yr ymgeisydd a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a daethpwyd i gytundeb ar gyfaddawd fel a ganlyn.

- Bydd unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir ar y safle dan reolaeth pwyllgor y clwb
- Ar ôl 02:00, bydd yr eiddo ar agor i aelodau'r clwb golff yn unig
- Bydd holl ddrysau a ffenestri'r eiddo yn cael eu cadw ar gau yn ystod adloniant rheoledig, ac eithrio yn ystod mynediad ac allanfa uniongyrchol.
- Ni chaniateir i unrhyw gerddoriaeth fyw/chwyddedig gael ei chwarae tu allan yr eiddo ar ôl 23:00
- Ni fydd sŵn neu ddirgryniad y dod o'r eiddo a fyddai'n achosi niwsans.
- Ni chaniateir gwaredu gwastraff poteli neu ganiau i gynhwysydd y tu allan i'r adeilad trwyddedig rhwng yr oriau 22:00 - 08:00. Bydd y poteli yn cael eu cadw oddi fewn i gwrtil yr eiddo mewn sgip neu fin gyda chaead

O ganlyniad, roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell caniatáu y cais yn unol â'r cyfaddawd a gytunwyd gyda'r ymgeisydd.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Eithriad fyddai cynnal digwyddiadau tu allan - nid oes digon o le i wneud hyn
- Bydd rheolaeth ar yr oriau terfynol, os yn eu defnyddio
- Bydd pob ymgais yn cael ei wneud i atal sŵn rhag ymledu
- Bod y clwb yn cael ei reoli fel clwb ac yn dilyn rheolau'r clwb
- Gweld cyfle i agor y drws i ymwelwyr i geisio annog mwy o fynychwyr

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â darpariaeth Teledu Cylch Cyfyng (TCC), nododd yr ymgeisydd bod darpariaeth 24 awr o TCC o amgylch yr eiddo. Ategodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd amodau TCC yn fandadol ar gyfer pob eiddo ac nad oedd tystiolaeth yn cyfiawnhau gosod amod TCC ar y drwydded yma.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Mared Llwyd (Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd)**

- Bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r ymgeisydd oedd wedi datgan nad oedd bwriad cyflawni alcohol 24awr – dim ond ar gyfer digwyddiadau arbennig yn unig e.e., gemau rhyngwladol
- Bod yr ymgeisydd yn derbyn yr amod na fydd cerddoriaeth fyw yn cael ei chwarae tu allan ar ôl 23:00
- Bod cau ffenestri i atal ymlediad sŵn yn amod cyffredinol
- Yn hapus gyda bodlonrwydd yr ymgeisydd i gyfaddawdu

**Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)**

- Bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r clwb oherwydd pryder o'r bwriad i agor i'r cyhoedd. Yn dilyn trafodaeth a chadarnhad gan y clwb na fydd ar agor i'r cyhoedd ar ôl 02:00, cefnogwyd yr argymhelliad.

d) Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei achos, nododd yr ymgeisydd

- Bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r holl asiantaethau a bod pawb bellach yn gytûn
- Bod trefniadau yn ei lle i sicrhau rheolaeth dda o'r sefyllfa ac i liniaru pryderon
- Nad oedd yn rhagweld problemau

dd) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, caniatawyd y cais yn ddarostyngedig i gyfaddawd a wnaed gyda'r ymgeisydd:**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu dystiolaeth o drosedd ac anhrefn fel sail i gyfiawnhau gwrthwynebu'r cais.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd tystiolaeth yn berthnasol i'r egwyddor hwn, er hynny roedd yr Is-bwyllgor yn croesawu y byddai'r digwyddiadau yn cael eu gorchwylio a bod goruchwylwyr drysau yn cael eu penodi i reoli'r safle mewn ffordd briodol.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** cyflwynwyd sylwadau ar y cais gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd oedd yn pryderu am yr oriau a ofynnwyd amdanynt, y

bwriad o agor y clwb i'r cyhoedd a chynnal gweithgareddau trwyddedig tu mewn a thu allan i'r eiddo. Roedd yr Is-bwyllgor yn croesawu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r ymgeisydd ac o'r cyfaddawd a gytunwyd. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried nad oedd gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth Tân ac na chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan drigolion lleol.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00 a daeth i ben am 11:40

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 27 Hydref 2023

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), John Brynmor Hughes ac Arwyn Herald Roberts

**Swyddogion:** Sïon Huws (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Eitem 4: Hugh Owen, Allan Jones, Laura Jones, Caroline Thomas a Ceinwen Williams
Eitem 5: Aelod Lleol – Cynghorydd Nia Jeffreys

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS TRWYDDED EIDDO:**

**Parc Teulu Gelli Gyffwrdd, Lôn Llwyn, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4QN**

**Eraill a wahoddwyd:**

- Andrew Baker – Ymgeisydd - Parc Teulu Gelli Gyffwrdd
- Simon Dale - Parc Teulu Gelli Gyffwrdd

- Ffion Muscroft (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)
- Elisabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

- Nest Griffths – Preswylydd Lleol
- Stephen Watson-Jones – Preswylydd Lleol
- Karen Jones – Preswylydd Lleol
- Andy Hemmings – Preswylydd Lleol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Parc Teulu Gelli Gyffwrdd, Lôn Llwyn, Y Felinheli, Gwynedd, gan yr ymgeisydd Mr Andrew Baker, Rheolwr Cyffredinol. Eglurwyd bod Parc Teulu Gelli Gyffwrdd yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr yng Ngwynedd a'r safle yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau yn ogystal â llety glampio.

Gwnaed y cais i gael caniatâd i werthu alcohol (cynnyrch lleol mewn poteli) gyda phrydau yn eu bwyty ar y safle yn ogystal â gwerthu poteli cynnyrch lleol yn y siop anrhegion.

Ategwyd bod y llety glampio yn agored i westeion 7 niwrnod yr wythnos o ddechrau mis Ebrill hyd at ddiwedd mis Hydref.

Yn ogystal â gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo 10:00 tan 22:00, chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dramâu a ffilmiau, perfformiadau dawns (dan do ac awyr agored) hefyd tan 22:00, 7 niwrnod yr wythnos, roedd y cais hefyd yn datgan bwriad trefnu perfformiadau a dramâu dan do ac awyr agored mewn ardal theatr tu allan, a hynny'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn (yn bennaf yn ystod y tymor prysuraf ond hefyd y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig) ar gyfer gwesteion glampio ac aelodau o'r gymuned, o fis Chwefror tan fis Hydref. Nodwyd y byddai ‘amplifier’ yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adloniant o'r fath.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a’r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru na’r Gwasanaeth Tân wrthwynebiad i’r cais, ond derbyniwyd sylwadau i’r cais gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar sail pryderon nad oedd digon o wybodaeth yn y cais yn amlygu na fyddai’r amcan niwsans cyhoeddus yn cael ei danseilio. Yn ychwanegol, derbyniwyd naw o lythyrau ac e-byst gan drigolion lleol yn gwrthwynebu mewn perthynas ar amcanion Trwyddedu Diogelwch y Cyhoedd, Niwsans Cyhoeddus a Gwarchod Plant Rhag Niwed. Roedd eu sylwadau / pryderon yn cyfeirio at gynnydd mewn traffig; byddai cerddoriaeth fyw / wedi ei recordio hyd 22:00 yn achosi niwsans cyhoeddus; gall plant gael gafael ar alcohol ar y safle; byddai’r rhai hynny sydd wedi yfed alcohol ar y safle yn debygol o adael ar droed a hynny ar hyd ffordd gul a pheryglus iawn.

O ganlyniad, roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell caniatáu y cais yn unol â’r cyfaddawd a gytunwyd gyda’r ymgeisydd.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau’r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a’r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Mai’r bwriad oedd gwerthu alcohol gyda bwyd yn y bwyty ac yn y siop anrhegion
- Bod dewis gwael o gynnyrch lleol yn y siop – eisiau gwella hyn
- Yn ystyried cynnal priodasau yn y dyfodol - y sector twristiaeth wedi wynebu heriau yn ystod cyfnod covid ac felly’n chwilio am ffyrdd o greu incwm ychwanegol i gwrdd â chostau cynnal. Ysgubor fawr ar y safle, felly dymuniad fyddai ystyried hyn fel opsiwn i’r dyfodol
- Bod y berthynas gyda chymdogion yn flaenoriaeth
- Bod bwriad gweini alcohol gyda bwyd yn y bwyty tan 22:00 – hyn ar gyfer glampwyr yn unig
- Bod y parc yn barc teulu – dim eisiau unrhyw wrthdaro gyda thrigolion lleol

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyfreithiwr ynglŷn â'r oriau agor, cadarnhawyd bod y parc ar agor o 10:00 tan 17:30, ond yn weithredol tan 18:00 - dyma'r oriau craidd. Nid oedd bwriad agor y parc tan 22:00 - cais ar gyfer digwyddiadau tu mewn yn unig oedd yma. Ategodd y byddai modd agor y parc tan 22:00 heb weithgareddau trwyddedig o dan y drwydded gyfredol petai dymuniad gwneud hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chapasiti y parc ac os byddai caniatáu y cais yn cynyddu'r niferoedd dyddiol, nododd yr ymgeisydd na fyddai caniatáu y cais yn cael effaith fawr ar y niferoedd - bod capasiti y parc oddeutu 2000 y dydd ac yn ystod 2023 bod y niferoedd, ar yr adegau prysuraf ond wedi cyrraedd 1400.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt. Tynnwyd sylw at y sylwadau hynny a gyflwynwyd gan yr ymgynghorai nad oedd yn bresennol)

**Ffion Muscroft (Swyddog Gwarchod y Cyhoedd)**

- Ei bod yn wreiddiol wedi gwrthwynebu'r cais oherwydd pryder cynnydd mewn sŵn i drigolion cyfagos, 7 diwrnod yr wythnos, ac awgrym y byddai llawer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal e.e. ffilmiau, dramâu, cerddoriaeth byw, perfformiadau dawns ayyb hyd 22:00
- E-byst wedi mynd nôl ac ymlaen gyda'r ymgeisydd yn ceisio gwybodaeth bellach am reoli sŵn digwyddiadau gyda'r nos
- Er nad oedd bwriad gan y cwmni i gynnal digwyddiadau cyson 7 niwrnod yr wythnos hyd 22:00, byddai'r drwydded yn caniatáu hyn
- Yn sgil y pryder yma, cytunodd yr ymgeisydd y byddai cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dramâu a ffilmiau yn yr awyr agored yn gorffen am 18:00
- Yn hapus gyda bodlonrwydd yr ymgeisydd i gyfaddawdu ac felly yn tynnu ei gwrthwynebiad yn ol.

**Elizabeth Williams (Swyddog Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)**

- Dim cwynion troseddol ac felly dim gwrthwynebiad i'r cais

**Stephen Watson-Jones (preswylydd lleol)**

- Bod ef a'i deulu yn gwneud bywoliaeth drwy'r diwydiant twristiaeth
- Pryder cychwynnol byddai sŵn o'r Parc, yn hwyr yn y nos, yn amharu ar ei ymwelwyr - dyma eu prif ffynhonnell incwm
- 'Heddwch, distawrwydd ac awyr glir' yn cael eu nodi fel prif nodweddion dros aros yn yr ysgubor yn ei lyfr ymwelwyr - eisiau cadw'r nodweddion hyn
- Bod cynnydd mewn traffig hefyd yn bryder
- Yn diolch i'r ymgeisydd am addasu'r oriau.

**Karen Jones (preswylydd lleol)**

- Yn croesawu'r addasiad i'r oriau
- Yn methu deall pam fyddai oedolion eisiau yfed yn ystod y dydd mewn parc teulu
- Bod hyrwyddo cynnyrch lleol yn newyddion da
- Bod y rhai sydd yn glampio yn dod ag alcohol eu hunain
- Angen osgoi niwsans cyhoeddus - pobl yn codi stŵr, curo drysau ceir ayyb

**Andy Hemmings (preswylydd lleol)**

- Bod cau'r parc i weithgareddau tu allan am 18:00 yn ganlyniad da
- Pryder gwreiddiol am sŵn gyda'r nos - byddai cynnal digwyddiadau yn arwain at gynnydd mewn sŵn.
- Os am gynnal priodasau - nid y lleoliad gorau. Y parc wedi ei amgylchynu gyda lonydd cul, heb oleuni - hyn yn cynyddu risg i yrwyr a defnyddwyr eraill o'r ffyrdd

**Nest Griffith (preswylydd lleol)**

- Ei bod yn byw yn agos i'r parc
- Ei bod wedi cyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r cynnig gwreiddiol o'r parc ar agor tan 22:00 - pryder sŵn a lefelau traffig
- Er wedi arfer gyda sŵn yn ystod y dydd, dim eisiau sŵn gyda'r nos hefyd
- Buasai agor tan 22:00 yn newid gwedd yr ardal dawel sy'n cwmpasu'r parc ac yn arwain at greu niwsans cyhoeddus
- Lonydd cul, trac sengl sydd yn arwain at y parc
- Yn llongyfarch llwyddiant ysgubol y parc, ond petai'r oriau yn cynyddu byddai hyn yn cynyddu'r risg o sicrhau diogelwch i'r cyhoedd / trigolion lleol
- Er yn derbyn y cyfaddawd o gau am 18:00, yn awgrymu cau am 17:30 fel bod pawb wedi <u>gadael erbyn 18:00,</u> ar lonydd yn saff.
- Yn gobeithio na fydd alcohol yn achosi problemau ychwanegol

d) Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei achos, nododd yr ymgeisydd

- bod y parc yn gweithredu oriau 10:00 – 18:00 (cau am 17:30 a rhoi hanner awr i ymwelwyr adael)
- Ei fod yn barod i gydweithio ac ymgysylltu gyda'r gymuned leol
- Bod dyhead i ddatblygu'r parc i'r dyfodol
- Bod y drwydded yn cael ei haddasu ar gyfer gwerthu alcohol o fewn yr oriau agor

dd) Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei achos, nododd y Rheolwr Trwyddedu ei bod yn hapus gyda sylwadau'r ymgeisydd a'i ymroddiad i dynnu'r oriau agor yn ol i 18:00. Ategodd ei bod yn gobeithio bod y cyfaddawd yn lleddfu pryderon trigolion cyfagos o atal niwsans cyhoeddus.

e) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cygnor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNWYD: Yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, caniatawyd y cais gan ystyried y sylwadau a wnaed; ac yn unol gyda'r cyfaddawd ar oriau o adloniant rheoledig a ganiateir a gytunwyd rhwng Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a'r ymgeisydd.**

**Gweithgareddau Trwyddedadwy**

**Dramâu**
**Dan Do**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 22:00**
**Awyr Agored**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 18:00**

**Cerddoriaeth Fyw**
**Dan do**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 22:00**
**Awyr Agored**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 18:00**

**Perfformiadau Dawns:**
**Dan Do**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 22:00**
**Awyr Agored**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 18:00**

**Ffilmiau:**
**Dan do**
**Dydd Sul -Dydd Sadwrn 10:00 - 22:00**
**Awyr Agored**
**Dydd Sul -Dydd Sadwrn 10:00 - 18:00**

**Cerddoriaeth Wedi ei Recordio**
**Dan do**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 22:00**
**Awyr Agored**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 18:00**

**Cyflenwi Alcohol Ac ar oddi ar yr Eiddo**
**Dydd Sul – Dydd Sadwrn 10:00 - 22:00**

Y mesurau, a gynigiwyd gan yr ymgeisydd yn adran M o'r cais i'w cynnwys fel amodau.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn amlygu y bu problemau oedd yn berthnasol â'r egwyddor yma gyda'r eiddo.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** nodwyd y pryderon a godwyd ynglŷn â'r effaith ar draffig ar y ffyrdd cul yng nghyffiniau'r safle. Ystyriodd yr Is-bwyllgor y defnydd presennol o'r safle a'r niferoedd sy'n ymweld â'r Parc eisoes, ac nid oeddynt o'r farn bod tystiolaeth y byddai caniatáu'r cais yn debygol o arwain at broblemau drwy gynnydd yn y defnydd o'r ffyrdd. Ategwyd yr angen i gadw mewn cof mai mater i'r weithdrefn gynllunio oedd ystyried effaith y datblygiad ar ffyrdd a thraffig yn yr ardal gyfagos.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** addaswyd y cais gan yr ymgeisydd i gyfarch gwrthwynebiad penodol Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd i'r oriau ar gyfer cynnal gweithgareddau awyr agored a'r tebygolrwydd o greu niwsans cyhoeddus. O ganlyniad, byddai'r gweithgareddau yma yn dod i ben am 18:00 yn hytrach na 22:00. Roedd y Swyddog yn fodlon gyda'r addasiad ac roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr addasiad yn cyfarch y pryderon a fynegwyd gan unigolion mewn ffordd resymol.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Roedd yr Is-bwyllgor yn croesawu bod yr ymgeisydd wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ac wedi bod yn fodlon cyfaddawdu. O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais fel yr addaswyd yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, ac felly caniatawyd y cais. Ar nodyn cyffredinol, eglurwyd mai ar sail tystiolaeth roedd yr Is-bwyllgor yn gwneud eu penderfyniad a bod y ddeddfwriaeth yn darparu gweithdrefn adolygu lle gellid gofyn i'r awdurdod adolygu unrhyw agwedd o'r drwydded os oedd angen.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

**5. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO:**

Cae Llyn Bach, Heol yr Wyddfa, Porthmadog LL49 9DF

**Eraill a wahoddwyd:**

- Mr John Lewis Roberts (ymgeisydd)
- Mared Llwyd (Arweinydd Tîm Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais i amrywio trwydded Clwb Llyn Bach, Heol Yr Wyddfa, Porthmadog i ychwanegu gwerthu alcohol o adeilad bach sydd wedi ei leoli tu allan ( i gefn y prif adeilad) ar gyfer gweithgareddau trwyddedig pan fydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ar adegau prysur. Nodwyd bod y Clwb yn un ar gyfer aelodau yn bennaf; yn cynnwys bar ac ardal patio / gardd gwrw; gyda thrwydded eiddo yn hytrach na thystysgrif clwb.

Gofynnwyd am yr hawl i gael chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio hyd at 01:00 bob dydd yn ogystal â pherfformiadau dawns, ac unrhyw weithgaredd tebyg megis comediwyr 'standup', tu mewn a thu allan, 7 diwrnod yr wythnos, ond fod adloniant rheoledig, gan gynnwys cerddoriaeth a dawnsio, yn dod i ben tu allan am 23:00. Er nad oedd cynnydd yn yr oriau gweithgareddau trwyddedig o'i gymharu â'r drwydded gyfredol, roedd yr ymgeisydd yn ceisio'r hawl i gynnal gweithgareddau trwyddedig y tu allan i'r eiddo hyd at 23:00. Y bwriad oedd gwerthu alcohol o'r 'hatch' yn y bar allanol tan 23:30, cau'r ardd gwrw am 00:00; gan ofyn i gwsmeriaid symud i mewn i'r adeilad. Gofynnwyd am ganiatâd i gomedïwr berfformio tu mewn yn ogystal â thu allan tan 01:00, er yn nodi yn rhan M y cais fod y llecyn allanol yn cau am 00:00.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd nad oedd gan Heddlu Gogledd Cymru na'r Gwasanaeth Tân wrthwynebiad i'r cais, a

derbyniwyd sylw gan Cyngor Tref Porthmadog nad oedd ganddynt wrthwynebiad cyn belled a bod y gweithgareddau yn cael eu cyfyngu i du mewn i'r adeilad ac nid tu allan. Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar sail pryderon y byddai'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus yn cael ei danseilio oherwydd y bwriad i gynnal gweithgareddau trwyddedig tu allan i'r eiddo gydag adloniant rheoledig yn cael ei ganiatáu yn yr awyr agored tan 23:00, a bar allanol tan 23:30.

Amlygwyd bod disgwyliad i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth fanwl gyda'r cais i ganiatáu i'r Awdurdod Trwyddedu benderfynu os yw'r mesurau a gynigir yn ddigonol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn yr ardal leol. Adroddwyd nad oedd unrhyw fanylion o'r camau arfaethedig y bwriedir eu cymryd i liniaru effaith sŵn ar drigolion cyfagos yn ystod digwyddiadau lle cynhelir adloniant wedi cael eu cyflwyno gan yr ymgeisydd yn yr achos yma.

O ganlyniad, roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell gwrthod y cais.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:
- Cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:
- Bod yr ardd yn agor beth bynnag tan hanner nos
- Byddai gwerthu alcohol yn yr ardd yn tynnu pwysau oddi ar y bar tu mewn
- Bod y tu mewn yn tueddu i orlenwi pan fydd tafarndai eraill yn y dre yn cau
- Dim bwriad cael pympiau - gwerthu alcohol mewn poteli a chaniau
- Un cwyn wedi ei dderbyn mewn pedair blynedd a hanner a hynny oherwydd sŵn gwagu poteli am 22:15

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â maint yr ardd, nododd yr ymgeisydd bod lle i oddeutu 80 o bobl yn yr ardd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gofynion y cais, nododd y Rheolwr Trwyddedu, er bod cais yma i werthu alcohol yn yr ardd, bod y cais yn gofyn am drwydded i gynnal adloniant / chwarae cerddoriaeth tu allan hefyd.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â cherddoriaeth a'r drefn bresennol, nododd yr ymgeisydd bod cerddoriaeth yn cael ei chwarae tu mewn bob nos Sadwrn, Sul ac ar Ŵyl y Banc ac y byddai cais am Ddigwyddiad Dros Dro yn cael ei wneud ar gyfer digwyddiadau arbennig tu allan. Ategodd yr ymgeisydd bod yr ardd wedi ei lleoli yn bellach o'r tai ac yn agored ar benwythnosau yn unig.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyfreithiwr ynglŷn â defnydd cyfreithiol y cwt tu allan ac os byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd, nododd yr ymgeisydd mai safle'r Hen Legion oedd dan sylw gyda hen seler ar y safle yn cael ei defnyddio i werthu cwrw yn y gorffennol. Ategodd y Rheolwr Trwyddedu bod y selar yn rhan o'r drwydded eiddo, ond bod y gweithgaredd o werthu alcohol yn wahanol.

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt.

**Mared Llwyd (Arweinydd Tim Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)**

- Yn amlygu pryder y byddai caniatáu yn arwain at greu niwsans cyhoeddus - byddai cerddoriaeth byw neu wedi ei recordio 7 diwrnod yr wythnos yn achosi niwsans i drigolion lleol
- Byddai cael 80 o bobl tu allan yn creu sŵn ychwanegol
- Os caniatáu gwerthu alcohol tu allan byddai hyn yn annog mwy i ymgynnull tu allan ac o ganlyniad byddai'n anodd rheoli sŵn
- Bod y lleoliad o fewn 15m i dai preswyl
- Bod sŵn yn cario a hyn yn amlwg o'r gŵyn a dderbyniwyd ym mis Awst 2023

d) Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei achos, nododd yr ymgeisydd

- Mai cŵyn am wagu poteli oedd dan sylw ac nid cŵyn am sŵn o'r ardd
- Bod cwrw wedi cael ei werthu ar y safle yn y gorffennol
- Derbyn peidio cael gwerthu alcohol o'r ardd, ond byddai peidio cael adloniant tu allan yn cael effaith ar y busnes

dd) Yn manteisio ar y cyfle i grynhoi ei achos, nododd y Rheolwr Trwyddedu,

- Bod yr ardal yn sensitif i sŵn - nifer o dai cyfagos o fewn 15m
- Yn parhau i wrthwynebu'r cais - nid oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno rhagofalon sŵn na chynllun gweithredu liniaru sŵn

e) Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Ymneilltuodd yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

v. Atal trosedd ac anhrefn
vi. Atal niwsans cyhoeddus
vii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
viii. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod

**Yn unol â'r Ddeddf Drwyddedu 2003, ac wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, GWRTHODWYD y cais am y rhesymau canlynol -**

- **Nad oedd unrhyw fesurau wedi eu hargymell yn rhan M sydd yn argyhoeddi'r Awdurdod Trwyddedu na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd fod posib rhoi mesurau mewn lle i reoli ardrawiad sŵn yn y lleoliad hwn sydd wedi ei amgylchynu gydag eiddo preswyl.**

- **Bod cwyn wedi ei dderbyn am  sŵn miwsig a sŵn cwsmeriaid ar yr eiddo trwyddedig yn ddiweddar**
- **Er bod swyddog Gwarchod y Cyhoedd wedi hysbysu'r  ymgeisydd  o'r bwriad i wrthwynebu'r cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus; ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr ymgeisydd , neu unrhyw awgrym o gyfaddawd**
- **Byddai'n fwy priodol i'r ymgeisydd fod yn cyflwyno rhybuddion digwyddiadau dros dro er mwyn ceisio darganfod os oes modd rheoli sŵn o ddefnydd yr ardd gwrw ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.**

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Yng nghyd-destun **Atal Trosedd ac Anhrefn** nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn amlygu y bu problemau oedd yn berthnasol â'r egwyddor yma gyda'r eiddo.

Yng nghyd-destun **Diogelwch Cyhoeddus** ni dderbyniwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Yng nghyd-destun **Atal Niwsans Cyhoeddus,** roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r egwyddor yma. Ystyriwyd bod Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi gwrthwynebu'r cais ar sail y byddai'r egwyddor yma yn cael ei danseilio o ganlyniad i'r bwriad o gynnal gweithgareddau trwyddedig y tu allan i'r eiddo. Ystyriwyd y lleoliad fel un sensitif iawn o ran sŵn gan ei fod wedi amgylchynu gan dai preswyl a'r cais yn gofyn am gael cynnal gweithgareddau y tu allan i'r eiddo tan 23:00. Er bod pobl eisoes yn mynychu'r ardd gwrw roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai gwerthu alcohol yn yr ardd yn denu mwy allan i'r ardd a hefyd yn rhoi rheswm iddynt aros yno. Nid oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth oedd yn perswadio'r swyddogion na'r is-bwyllgor y byddai modd rhoi mesurau mewn lle i reoli ardrawiad sŵn ar y tai preswyl cyfagos. Yn ogystal â barn broffesiynol y swyddogion, roedd tystiolaeth o gŵyn am sŵn o ganlyniad i ddigwyddiad a gynhaliwyd o dan drwydded dros dro yn ddiweddar.

Roedd yr Is-bwyllgor yn siomedig nad oedd yr ymgeisydd wedi cysylltu â Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a hithau wedi ei hysbysu o'i bwriad i wrthwynebu'r cais. Ni fu unrhyw awgrym o gyfaddawd mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ac ni fu unrhyw ymdrech i gyfarch y pryderon.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:30

| PWYLLGOR | PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 4 RHAGFYR 2023 |
| TEITL: | CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD - TRINIAETHAU ARBENNIG |
| PWRPAS: | CYFLWYNIAD AR Y GOFYNION NEWYDD - A RÔL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU |
| AWDUR: | PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Bydd cynllun trwyddedu newydd ar gyfer 'Triniaethau Arbennig' yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru oddeutu mis Mehefin 2024 (yr union ddyddiad i'w gadarnhau), dan Ran 4 Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017. Mae Triniaethau Arbennig yn cynnwys tatŵio, lliwio'r croen yn lled barhaol, tyllu addurnol, aciwbigo, nodwyddo sych ac electrolysis.

1.2 Bydd prif ofynion y gyfundrefn hon fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i ymarferwyr gael trwydded i gynnal triniaethau arbennig.
- Bydd cynnal triniaethau arbennig heb drwydded yn drosedd;
- Mae'n rhaid i eiddo neu gerbydau busnes gael eu cymeradwyo.
- Bydd yn drosedd i ymarferydd wneud unrhyw driniaeth mewn eiddo neu gerbydau sydd heb gael eu cymeradwyo.
- Bydd trwydded lawn yn para am dair blynedd a bydd trwydded dros dro yn para am 7 diwrnod (i ganiatáu ar gyfer Digwyddiadau a chynadleddau).
- Bydd yn rhaid arddangos y Drwydded yn yr eiddo lle mae’r triniaethau arbennig yn cael eu cynnal.
- Bydd amodau’r drwydded yn cynnwys cymhwysedd yr ymarferydd, yr eiddo, yr Offer a'r arferion a ddefnyddir, unrhyw gyngor sydd angen ei roi cyn neu ar ôl y driniaeth arbennig, a’r cofnodion sydd angen eu cadw.
- Bydd angen i'r ymarferwyr gael hyfforddiant penodol.

1.3 Bwriad Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno'r cynllun hwn yw lleihau'r risgiau iechyd sy’n gysylltiedig â'r triniaethau hyn. Yn amlach na dim, gall heintiau ddatblygu yn safle’r driniaeth a gall ymarferion amhriodol ac anhylan arwain at ledaenu afiechydon heintus megis firysau a gludir yn y gwaed.

## 2 Y SEFYLLFA GYFREDOL

2.1 Ar hyn o bryd, os yw unigolyn yn dymuno gwneud aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled barhaol, tyllu addurnol neu electrolysis, mae'n rhaid iddynt wneud cais i gofrestru gyda'i awdurdod lleol. Amlinellir y gofyn i gofrestru yn Rhan 8 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Dan Ddeddf 1982, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru is-ddeddfau enghreifftiol o ran materion penodol sy'n llywodraethu arferion hylendid diogel gyda’r mathau hyn o driniaethau, ond mae’r opsiynau gorfodaeth dan y darpariaethau hyn yn brin, hyd yn oed mewn Awdurdodau Lleol sydd wedi mabwysiadu’r safonau enghreifftiol yn is-ddeddfau Lleol yn llawn.

2.2 Rhywbeth arall i’w ystyried ar hyn o bryd yw’r ffaith mai’r unig reswm y gall awdurdodau lleol wrthod cais ar gyfer cofrestriad tyllu croen dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yw os cafodd cofrestriad blaenorol yr ymgeisydd ei ganslo gan y llysoedd o ganlyniad i euogfarn (e.e. ar ôl torri is-ddeddf hylendid).

## 3 GOBLYGIADAU'R CYNLLUN TRWYDDEDU GORFODOL NEWYDD

3.1 Bydd y gyfundrefn newydd yn golygu bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi gofynion trwyddedu'r ymarferion hyn a chadw cofrestr o drwyddedau triniaethau arbennig a gyflwynir ganddynt.

3.2 Os yw awdurdod lleol yn fodlon nad yw deilydd y drwydded wedi llwyddo i gydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol neu wedi cael euogfarn berthnasol, gall ddiddymu trwydded triniaeth arbennig, naill ai yn llawn neu gyhyd â'i bod yn berthnasol i berfformiad y driniaeth arbennig benodol. Lle mae camau wedi'u cymryd gan yr awdurdod lleol, megis cyflwyno rhybudd atal, diddymu trwydded neu wrthod cais, mae hawl gan yr unigolyn i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ac apelio i lys yr ynadon yn erbyn y penderfyniad.

3.3 Bydd angen i Ymarferwyr Triniaethau Arbennig ddangos eu cymhwysedd i gyflawni'r triniaethau hyn drwy wneud hyfforddiant a bod yn destun i archwiliad gan Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd (Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd). Yn ogystal, bydd rhaid iddynt ddarparu DBS Sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded.

3.4 Bydd angen i'r ymarferwyr hynny sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd symud i'r system newydd. Caniateir amser iddyn nhw a'u heiddo gael eu hasesu gan swyddogion a throsglwyddo i'r system drwyddedu newydd.

3.5 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ychwanegol hwn yn cael ei amsugno i raglenni gwaith presennol o fewn Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu, sy'n gallu effeithio ar feysydd eraill o gyflwyno gwasanaeth

## 4. GOBLYGIADAU AR GYFER Y PWYLLGOR TRWYDDEDU

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan eu bod yn disgwyl i'r gyfundrefn hon eistedd dan strwythurau'r pwyllgor trwyddedu ac maent wedi bod yn llunio dogfen ymgynghorol sy'n amlinellu eu disgwyliadau yn nhermau llywodraethu. Bydd swyddogion yn hysbysu Aelodau'r Pwyllgor hwn pan fydd y ddogfen ymgynghorol wedi'i chyhoeddi. Rhagwelir y bydd yr is-bwyllgor yn gorfod gwneud penderfyniad ar geisiadau cynhennus, a bydd hawl i ymgeiswyr apelio i'r is-bwyllgor trwyddedu neu lys yr Ynadon os yw eu cais am drwydded ymarferydd yn cael ei wrthod.

4.2 Rhagwelir hefyd y bydd angen i Aelodau gael hyfforddiant fydd yn eu galluogi i benderfynu ar geisiadau gan y gallent fod yn destun her gyfreithiol. Bydd Dr Sarah Jones, Uwch Ymgynghorydd Iechyd yr Amgylchedd, sydd wedi arwain ar ddatblygiad y cynllun trwyddedu ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn rhoi cyflwyniad i aelodau'r pwyllgor ar y cynllun dros Zoom yn ystod cyfarfod y pwyllgor heddiw.

4.3 Nid yw rôl y pwyllgor trwyddedu o ran gwneud penderfyniadau ar geisiadau Trwyddedu o'r fath wedi'i ymgorffori mewn Rheoliadau Gwrandawiadau penodol eto; a bydd y pwyllgor hwn yn cael ei hysbysu o unrhyw ddatblygiadau yn hyn o beth, fel cyfarwyddiadau pellach ar y mater gan Lywodraeth Cymru.

4.4 Pan geir rhagor o eglurder ar rôl y pwyllgorau trwyddedu, bydd y Swyddog Monitro yn adolygu pa fecanweithiau fydd angen eu mabwysiadu i gyfansoddiad y Cyngor, yn ogystal â phenderfynu ar y pwerau dirprwyedig sydd eu hangen ar gyfer swyddogion.